CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# CALON TÂN

RHIFYN YR HYDREF 2025

## ADFER PEIRIANT DIFFODD TÂN HANESYDDOL





## GWOBRAU MWY NA DIM OND TANAU 2025

**EIN GWELEDIGAETH**
I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**OUR VISION**
To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.

#EichGTACGC

#YourMAWWFRS

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| ADRODDIAD YMGYSYLLTU CRHRC | 3 |
| BWRDD TANAU GWYLLT - #LLOSGIIAMDDIFFYN | 3 |
| CYFATHREBU'R RHANBARTHAU | 4 |
| DDIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - DEWI MORGANS | 7 |
| DIWRNOD AGORED CAERFYRDDIN A'R PENCADLYS | 8 |
| GWOBRAU MWY NA DIM OND TANAU 2025 | 10 |
| ADFER PEIRIANT DIFFODD TAN HANESYDDOL | 16 |
| NEWYDDION O'R YSTAFELL REOLI | 18 |
| CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 19 |
| SWYDDI | 22 |


**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

**Dyma rhai o bethau a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:**

**1588**
Galwadau i'r Ganolfan Rheoli

**788**
Digwyddiadau a fynychwyd

**53**
O danau mewn adeiladau

**288**
O alwadau ffug

**8**
Anifail wedi'u Hachub

**5**
O ddigwyddiadau achub dwr

**49**
O wrthdrawiadau traffig ffyrdd

**63**
O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill


CRHRC

# ADRODDIAD YMGYSYLLTU NODEDIG AR REOLI RISG CYMUNEDOL 2040

**Heddiw, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi cyhoeddi ei Adroddiad ar yr Arolwg Ymgysylltu ar gyfer Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040, sy'n nodi carreg filltir arwyddocaol wrth lunio dyfodol gwasanaethau tân ac achub ledled y rhanbarth.**

Mae'r adroddiad, sy'n seiliedig ar ymgysylltiad helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, yn casglu lleisiau dros 728 o ymatebwyr ac yn adlewyrchu blaenoriaethau, pryderon a dyheadau cymunedau ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n ffurfio conglfaen gweledigaeth hirdymor y Gwasanaeth i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

ERTHYGL LLAWN




BWRDD TANAU GWYLLT CYMRU

# #LLOSGIIAMDDIFFYN

**Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog ffermwyr a thirfeddianwyr i #LlosgiIAmddiffyn cefn gwlad Cymru y tymor llosgi hwn.**

Wrth i'r haf hir, poeth ddod i ben a'n bod ni'n symud i'r hydref, gyda llystyfiant sych a gostyngiad mewn tymheredd, mae'r tymor llosgi yn dechrau yn swyddogol.

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru eisiau atgoffa ffermwyr a thirfeddianwyr y gall llosgi grug, glaswellt, rhedyn ac eithin ddigwydd o 1 Hydref hyd at 15 Mawrth (hyd at 31 Mawrth mewn ardaloedd Ucheldir), fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt gael Cynllun Llosgi ar waith i sicrhau eu bod yn llosgi'n ddiogel.

Fel rhan o'u hymgyrch #LosgiiAmddiffyn mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn atgoffa tirfeddianwyr o gyngor syml a fydd yn helpu i gefnogi llosgi cyfrifol:

ERTHYGL LLAWN

Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board
Llosgi i Amddiffyn Burn to Protect

## Y GORLLEWIN

# DDYDD SADWRN 13 MEDI, ARWEINIODD Y DIFFODDWR TÂN RHYS FITZGERALD DÎM O CHWE DIFFODDWR TÂN I YMGYMRYD Â’R HER O DDRINGO BEN NEVIS.

**Llwyddodd Rhys, ynghyd â phump o’i gydweithwyr yn y gwasanaeth tân, i ddringo i’r copa mewn cit diffodd tân llawn, gan ddangos eu cryfder, eu nerth a’u hundod anhygoel.**

Ymdrech oedd hon er cof am ddiffoddwyr tân sydd wedi rhoi eu bywydau wrth wasanaethu, ac roeddent hefyd yn codi arian hanfodol ar gyfer **Elusen y Diffoddwyr Tân**.

## ERTHYGL LLAWN







## Y GOGLEDD




# GWERTHFAWROGI'R CRIW YNG NGORSAF DÂN LLANFAIR-YM-MUALLT

**Ddydd Llun, Medi 8fed, croesawodd y criw yng Ngorsaf Dân Llanfair-ym-Muallt Darren Hughes, a oedd yn ymweld i ddiolch i'r criw am eu hymateb a'u gwaith arbennig tra roedd yn profi argyfwng meddygol.**

Tra roedd allan yn rhedeg tua 12 mis yn ôl, dioddefodd Darren ataliad ar y galon ac roedd angen sylw meddygol brys arno. Cyd-redwr a ffrind i Darren, Lee Nicholson, oedd y cyntaf i gyrraedd y lleoliad a chododd y larwm cyn perfformio adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) nes i gymorth cyrraedd.

Ymwelodd Darren a Lee â Gorsaf Dân Llanfair-ym-Muallt i ddiolch i'r holl wasanaethau brys a'i helpodd ac amlygodd y cydweithrediad arbennig rhwng yr holl wasanaethau i gyflawni canlyniad cadarnhaol.

**ERTHYGL LLAWN**

Y DE

# DIFFODDWYR TÂN AMSER CYFLAWN NEWYDD – SGWAD 02/25

**Ddydd Iau, 4 Medi, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) Seremoni Graddio a Seremoni Cwblhau Hyfforddiant ar gyfer y grŵp diweddaraf o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn.**

Cynhaliwyd y seremoni, a agorwyd gan y Prif Swyddog Tân Roger Thomas KFSM, yng Nghanolfan Hyfforddi GTACGC Earlswood, a daeth teulu, ffrindiau, aelodau a swyddogion yr Awdurdod Tân ynghyd i ddathlu cyflawniad anhygoel yr 11 unigolyn.


Bu Sgwad 02/25, fel y'u gelwir, ar daith drawsnewidiol gyda'i gilydd wrth iddyn nhw gwblhau 14 wythnos o hyfforddiant trylwyr.

Roedd y Seremoni yn cynnwys Gorymdaith y Recriwtiaid lle ymunodd yr Osgordd Baneri Seremonïol â nhw, Arolygiad o'r Recriwtiaid gan y Prif Swyddog Tân Roger Thomas, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Cynghorydd John Davies a'r Pennaeth Cyflwyno Hyfforddiant, Rheolwr y Grŵp Stuart Bate.

Cyn bo hir bydd pob un sydd wedi graddio yn dechrau eu gyrfaoedd fel Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn yn eu Gorsaf Dân ddynodedig.  Mae pawb yn GTACGC yn eu llongyfarch ac yn dymuno gyrfa hir a llwyddiannus i bob un ohonynt.

ERTHYGL LLAWN





DDIFFODDWYR TÂN AR ALWAD

# “MAE BOD YN DDIFFODDWR TÂN AR ALWAD WEDI NEWID FY MYWYD.”

## GWNEUD GWAHANIAETH: Y DIFFODDWR TÂN DEWI MORGANS

**Dewi protects his local community as an On-Call Firefighter at Aberaeron Fire Station, as well as a Wholetime Firefighter at Aberystwyth Fire Station.**

Mae Dewi yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Aberaeron, yn ogystal â Diffoddwr Tân Llawn Amser yng Ngorsaf Dân Aberystwyth. [Yn y fideo hwn,](#) mae Dewi yn rhannu ei brofiad o weithio fel Diffoddwr Tân Ar Alwad a’r hyn y mae wedi’i ennill o’r rôl.

Mae ein system bandio Diffoddwyr Tân Ar Alwad newydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd, gwell cyflog a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol. Diddordeb mewn dysgu mwy am ddod yn ddiffoddwr tân ar alwad? Cliciwch ar ‘erthygl lawn.’



ERTHYGL LLAWN

DIWRNOD AGORED

# LLWYDDIANT YN NIWRNOD AGORED GORSAF DÂN A PHENCADLYS CAERFYRDDIN

**Ddydd Gwener yr 22ain o Awst, roeddem wrth ein bodd yn croesawu cannoedd o bobl o'r gymuned i Orsaf Dân Caerfyrddin a Phencadlys y Gwasanaeth ar gyfer ein Diwrnod Agored.**

Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr, gyda theuluoedd a ffrindiau yn ymuno â ni i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau. Roedd arddangosiadau byw yn cynnwys arddangosiadau Gwrthdrawiad ar y Ffordd, arddangosiadau sosban sglodion ac arddangosfa pwmp.

Roeddem hefyd yn falch o groesawu ein ffrindiau o'r Her Ffitrwydd Diffoddwyr Tân, a gynhaliodd sesiynau trwy gydol y dydd i arddangos y sgiliau sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth, tra hefyd yn annog ymwelwyr i gymryd rhan. Roedd digon o gyfleoedd addysgol i blant ac oedolion, gan gynnwys arddangosiadau Ssystem daenellu, ymwybyddiaeth o danau gwyllt a chyngor ar ddiogelwch trydanol yn y cartref.

Aeth yr holl arian a gasglwyd o werthiannau hufen iâ, gemau, tocynnau raffl a chymryd rhan mewn digwyddiadau i Elusen y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi cefnogaeth hanfodol i bersonél tân sydd mewn cyfnodau anodd.

Hoffem ddiolch i bawb a ddaeth am dro, a gymerodd ran, ac a gyfrannodd. Gan gyfrannu at wneud y diwrnod yn llwyddiant.

Diolch arbennig hefyd i'n ffrindiau ar draws gwasanaethau eraill a ddaeth draw ac a gymerodd ran yn y Diwrnod Agored ac i'r holl fusnesau lleol a roddodd wobrau raffl.

**Diolch i haelder pawb, cododd y digwyddiad swm anhygoel o £5,246.**






FIRE






GAVIN
GRIFFITHS
GROUP


www.tancgc.gov.uk | www.mawwfire.gov.uk



# GWOBRAU MWY NA DIM OND TANAU 2025

**Ddydd Iau, Medi 25, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ei seremoni wobrwyo flynyddol, Mwy na Dim ond Tanau, ym Mharc y Scarlets yn Llanelli.**

Cafodd y noson ei chyflwyno gan y darlledwr hyfryd Eleri Siôn sy'n fwyaf adnabyddus am ei chynhesrwydd a'i hegni ar BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru ac S4C.

Roedd y noson yn gyfle arbennig i ddiolch a chydnabod yr ymdrechion rhyfeddol, y gwaith caled ac ymroddiad staff y Gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf.

Roedd y seremoni'n cyflwyno cyfanswm o 10 categori o wobrau a oedd yn cynnwys enwebeion a ddewiswyd gan eu cydweithwyr. Roedd yn cynnwys gwobr ar gyfer Hyrwyddwr Cymunedol, y Gorau am Godi Arian a Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig y Prif Swyddog Tân, i enwi ond rhai.

Yn ystod y seremoni, dywedodd y PST Thomas:

***"Dathlu a chydnabod yw pwrpas heno — cyfle i gydnabod ymroddiad, dewrder, a gwasanaeth anhygoel ein timau a'n hunigolion sy'n mynd y filltir ychwanegol i ddiogelu ein cymunedau.***

***O danau gwyllt i weithrediadau achub, i fentrau diogelwch cymunedol - mae gwaith ein Gwasanaeth yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ddiffodd tanau ac rydym yma i gydnabod y genhadaeth ehangach honno heno."***



# DYMA ENILLWYR Y NOSON:



## Gwobr Hyrwyddwr Cymunedol

Aeth y wobr gyntaf ar gyfer Hyrwyddwr Cymunedol i'r Rheolwr Criw Steve Richards am ei ymateb dewr i argyfwng meddygol ger ei gartref ac ers hynny mae wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth rheoli gwaedu, gan osod pecynnau rheoli gwaedu yng Ngorsaf Dân Llanelli a Neuadd y Seiri Rhyddion.

Hefyd ar y rhestr fer roedd y Diffoddwr Tân James Boyle o Orsaf Dân Gorllewin Abertawe a'r Diffoddwr Tân Douglas Preece o Orsaf Dân Llanandras.



## Gwobr y Gorau am Godi Arian

Aeth y Wobr y Gorau am Godi Arian i'r criw yng ngorsaf dân Llanandras am eu hymrwymiad eithriadol i godi arian – gan godi dros £6,700 yn 2024 ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân a dros £3,000 yn 2025 ar gyfer elusennau atal hunanladdiad lleol.

Hefyd ar y rhestr fer roedd y Diffoddwr Tân Rhys Fitzgerald o Orsaf Dân Cydweli a Chriw'r Wylfa Las o Orsaf Dân Castell-nedd.




## Gwobr Gwaith Tîm Rhagorol

Enillodd y Tîm Pensiynau'r categori hwn, gan gydnabod eu gwydnwch a'u hymroddiad wrth lywio newidiadau cymhleth i bensiynau. Maen nhw'n dîm bach sydd wedi cefnogi staff mewn modd clir a chyda gofal drwy ddegawdau o ddeddfwriaeth.

Hefyd ar y rhestr fer roedd Tîm Hyfforddi a Darparu VAWDASV *(Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence)*, y Tîm Hydrant a'r Tîm Addysg.




## Gwobr Arwr Tawel

Aeth pedwaredd wobr y noson i'r Swyddog Ymateb Meddygol Steven Jarvis sydd, y tu ôl i'r llenni, wedi mynd ati i ehangu galluoedd ymateb meddygol y gwasanaeth i 39 gorsaf, gan gyfrannu at 51 achos llwyddiannus o Ddychwelyd Cylchrediad Digymell y Gwaed y llynedd.

Hefyd ar y rhestr fer roedd y Rheolwr Gorsaf, Claire Powis o'r tîm Rheoli Tân ar y Cyd, yr Ymarferydd Arweiniol Diogelwch Tân Cymunedol Danny Lewis a'r Rheolwr Gwylfa Kevin Bassett.



## Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth

Aeth y Wobr Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth i dri unigolyn haeddiannol – Rheolwr Gorsaf Stephen Griffiths, Cydlynydd SHE Assure Ffion James a'r Rheolwr Gwylfa Eifion Rees.

Yn y llun mae Pennaeth Risg Gorfforaethol, Alex Roberts, a dderbyniodd y wobr ar ran Ffion James, gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol.



## Gwobr Hyrwyddwr Iechyd a Lles

Aeth y wobr ar gyfer yr Hyrwyddwr Iechyd a Lles i Orsaf Dân Hwlffordd am eu Gardd Les. Trawsnewidiodd eu tîm ddarn o laswellt oedd wedi'i esgeuluso yn ardd les fywiog – gan greu gofod i ymlacio, myfyrio a chysylltu, gan helpu i leihau straen a meithrin cyfeillgarwch ar draws Gorsaf Hwlffordd a phencadlys Sir Benfro.

Roedd y Tîm Podlediad Iechyd a Lles a'r Rheolwr Gorsaf, Simon Pearson hefyd wedi'u henwebu.



## Gwobr Rhagoriaeth Rhanbarth y Gorllewin

Aeth y wobr am Ragoriaeth Rhanbarth y Gorllewin i Orsaf Dân Cydweli am eu gwaith tîm rhagorol, eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad i'w cymuned.

Roedd Gorsaf Dân Llandeilo a Gorsaf Dân Doc Penfro hefyd wedi'u henwebu.



## Gwobr Rhagoriaeth Rhanbarth y De

Aeth y wobr am Ragoriaeth Rhanbarth y De i Orsaf Dân Blaendulais sydd wedi dangos cefnogaeth barhaus i'w cymuned gyda dau ddegawd o gefnogaeth i'r rhaglen Cadetiaid Tân.

Roedd criw Gwylfa Wen Gorsaf Dân Port Talbot a Gorsaf Dân Dyffryn Aman hefyd wedi'u henwebu.



## Gwobr Rhagoriaeth Rhanbarth y Gogledd

Aeth y wobr am Ragoriaeth Rhanbarth y Gogledd i Orsaf Dân Tregaron i gydnabod eu proffesiynoldeb, eu tosturi a'u hysbryd cymunedol cryf. Roedd eu hymateb i dân gwyllt Ystâd yr Hafod dros nos a'u gofal yn ystod ataliad ar y galon yn ddiweddar yn adlewyrchu gwasanaeth anhunanol y criw a'u gwerthoedd dwfn.

Roedd Gorsaf Dân Crucywel a Gorsaf Dân Machynlleth hefyd wedi'u henwebu.

## Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig y Prif Swyddog Tân

Categori olaf y noson oedd Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig y Prif Swyddog Tân Mae'r wobr hon yn dyst i'r unigolion a'r timau anhygoel sydd, trwy eu dewrder eithriadol, eu hymroddiad diflino, a'u hymrwymiad diwyro, nid yn unig yn gwella ein Gwasanaeth ond hefyd yn ein cynrychioli'n gadarnhaol yn y gymuned.



### Tîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol y DU

Mae Tîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar alwad 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn ac yn barod i ymateb i drychinebau dyngarol ledled y byd. Er 1992, mae'r tîm wedi cael ei anfon i ddigwyddiadau mawr mewn gwledydd gan gynnwys Twrci, Haiti, Nepal, ac yn fwyaf diweddar, Moroco, yn dilyn daeargryn dinistriol 2023 yn Nhalaith Al Haouz.



### Gorsaf Dân Dyffryn Aman

Wrth wynebu argyfwng na allai neb ei ddychmygu, dangosodd criw Gorsaf Dân Dyffryn Aman ddewrder, tosturi a phroffesiynoldeb eithriadol. Wrth ymateb i ataliad ar y galon yn ystod genedigaeth, fe wnaethant gefnogi criwiau o'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i berfformio toriad Cesaraidd brys yn y fan a'r lle. Helpodd eu gweithredoedd tawel a phenderfynol i achub bywyd plentyn newydd-anedig.

Mae Rheolwr yr Orsaf, Bleddyn Rees, hefyd yn cael ei gydnabod am ei arweinyddiaeth eithriadol a'r gefnogaeth ddiwyro a roddodd i'w griw yn ystod ac ar ôl y digwyddiad.

Wrth i'r noson ddod i ben, roedd yn amlwg bod Mwy Na Dim Ond Tanau yn llawer mwy na seremoni wobrwyo - mae'n deyrnged o'r galon i'r bobl sy'n gwneud Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn wirioneddol arbennig. O weithredoedd o ddewrder i eiliadau tawel o dosturi, roedd pob stori a rannwyd yn adlewyrchiad pwerus o ymrwymiad dwfn y Gwasanaeth i'w gymunedau. Mae ein diolch diffuant i'r holl enwebeion, enillwyr a'r rhai sy'n eu cefnogi - mae eich ymroddiad yn parhau i'n hysbrydoli ni i gyd.


MWY NA DIM
OND TANAU
MORE THAN
JUST FIRES








Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth
Excellence in Service Award
2025

# PEIRIANT DIFFODD TÂN HANESYDDOL YN CAEL EI ARDDANGOS YN BARHAOL

**Ddydd Llun, 11 Awst, cynhaliwyd cyflwyniad ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yng Nghaerfyrddin, i ddadorchuddio pwmp diffodd tân oedd yn cael ei weithio â dwylo a gafodd ei adfer yn ddiweddar.**

Dros y misoedd diwethaf, mae gwaith wedi'i wneud i adfer hen bwmp diffodd tân Merryweather & Sons, ar ôl iddo gael ei storio mewn adeilad tu allan am bron i 40 mlynedd.

Cafodd y pwmp llaw pedwar person Merryweather ei gomisiynu yn 1906 gan yr Arglwydd Drummond o Blasty Rhydodyn, ger Llandeilo, Sir Gaerfyrddin. Cafodd y pwmp ei brynu yn dilyn tân difrifol mewn sied wair ar Ystâd Edwinsford y flwyddyn flaenorol.


Yn ystod y nos ar 22 Mawrth 1907 fe dynnwyd sylw'r teulu Drummond at dân a oedd wedi cynnau yn un o ystafelloedd gwely'r plasty. Cafodd y pwmp ei roi ar waith yn syth a chafodd y tân ei ddiffodd o fewn yr awr, gan atal difrod pellach i'r plasty.




EDWINSFORD —1906.—




EDWINSFO


EDWINSFORD



EDWINSFORD
—1906.—

# DIFFODDWYR TÂN YR YSTAFELL REOLI YN CYNORTHWYO TEULU O FFRAINC

**Ym mis Mai 2025, cafodd y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n gyfrifol am ddelio â galwadau brys ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, alwad gan deulu o Ffrainc a oedd mewn trallod.**

Diolch i'r cydweithio esmwyth rhwng Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli Chris Morris a'r Rheolwr Criw Caroline Hughes, bu modd i'r tîm ymateb yn gyflym ac yn effeithiol.  Roedd Caroline, sy'n siarad Ffrangeg yn rhugl, yn gallu cyfathrebu'n uniongyrchol â'r galwr a chanfu bod y plentyn wedi cael archoll ar ei ben.

ERTHYGL LLAWN



# DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

**Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:

ROWNDERI
ROUNDERS

CLWB CRICED
CRICKET CLUB

CLWB BOWLIO
BOWLS CLUB

CLWB BEICIO
CYCLING CLUB

CLWB PYSGOTA PLY
FLY FISHING CLUB

CLWB PÊL DROED
FOOTBALL CLUB

CLWB GOLFF
GOLF CLUB

FFOCWS CHWARAEON MENYWOD
FEMALE SPORTS FOCUS

CLWB RYGBI
RUGBY CLUB

CLWB TRIATHLON
TRIATHLON CLUB

CLWB FFITRWYDD
FITNESS CLUB

**Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg**

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau. Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk



# GWEITHIO GYDA NI!

**Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.**

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.



## Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael – 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg – Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles



**GWELD Y SWYDDI GWAG CYFREDOL >**




# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?

**Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!**



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service




# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires

www.tancgc.gov.uk